O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2014 Rhif 2837 (Cy. 288)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Cyfnewidfa Rhaglan, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau a Throi i'r Dde ac i'r Chwith Dros Dro) 2014

Gwnaed	*21 Hydref 2014*
Yn dod i rym	*27 Hydref 2014*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Rhaglan – Llanymddyfri (yr A40) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 27 Hydref 2014. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Cyfnewidfa Rhaglan, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau a Throi i'r Dde ac i'r Chwith Dros Dro) 2014.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau hynny o gefnffordd yr A40 wrth Gyfnewidfa Rhaglan a Ffordd Osgoi Rhaglan yn Sir Fynwy a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiadau

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb ddefnyddio unrhyw gerbyd, na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio, i droi i'r dde ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb ddefnyddio unrhyw gerbyd, na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio, i droi i'r chwith ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3.

Cymhwyso

6. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 21 Hydref 2014

R Morgan
R Morgan
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ATODLEN 1

GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO

Y darn cyfan o ffordd ymuno tua'r de yr A40 wrth Gyfnewidfa Rhaglan hyd at ei chyffordd â cherbytffordd yr A449.

ATODLEN 2

GWAHARDD DROS DRO DROI I'R DDE

Y troad i'r dde o gerbytffordd tua'r gorllewin yr A40, Ffordd Osgoi Rhaglan, i Ffordd Llanfihangel Troddi.

ATODLEN 3

GWAHARDD DROS DRO DROI I'R CHWITH

Y troad i'r chwith o gerbytffordd tua'r gorllewin Ffordd Osgoi Rhaglan i Ffordd Trefynwy.